# y dinesydd

Rhagfyr 2010 Rhif 353 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Fro Pris: 80 ceiniog

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Dinesydd!*
*Bydd y rhifyn nesa yn ymddangos ar ddechrau mis Chwefror.*

## Cor Meibion Taf



Ddiwedd mis Hydref fe fu Côr Meibion Taf yn canu yng Ngŵyl Corau Meibion Cymry Llundain.

Wedi treulio wythnosau lawer yn chwysu dros bedair ar bymtheg o ganeuon yn amrywio o emyn dôn Nazareth i "You Raise me up" fe gyrhaeddodd y penwythnos tyngedfennol. Roedd yna gryn dipyn o ddysgu geiriau ar y bws y bore Gwener hwnnw a sawl aelod wedi colli cwsg dros Nessun Dorma.

Ar ôl cyrraedd Llundain roedd cyfle i dreulio'r prynhawn yn siopa a hamddena ac ar ôl swper ymlacio ym mar y gwesty cyn dechrau'r gwaith caled trannoeth.

*Rhagor ar dudalen 2*

## Llyfrau Hanesyddol

Mae llyfrau hanesyddol prin wedi cael eu harddangos yn y Senedd ar ôl iddyn nhw gael eu hachub i'r genedl.

Pwrpas yr arddangosfa oedd dathlu symud llyfrau hanesyddol o Lyfrgell Cyngor Caerdydd i Brifysgol Caerdydd.

Mae'r casgliad yn cynnwys sawl enghraifft o hen lyfrau. Mae rhai wedi cael eu cyhoeddi cyn 1500; gyda Beiblau cynnar o 1540; ac atlas yn cynnwys map y byd o 1492.

Dywedodd AC y Blaid Chris Franks: "Dechreuodd y siwrne o drosglwyddo'r llyfrau hanesyddol i'r Brifysgol nôl yn 2007. Mae'r diweddglo hapus yma yn dangos y gwaith caled ac ymrwymiad y brifysgol, Cyngor Caerdydd a Llywodraeth y Cynulliad a phwysigrwydd cydweithio. Mi fydd y llyfrau hanesyddol fel gwaith arloesol John Calfin 'Institutio Christianae religionis' ar ddiwinyddiaeth Brotestannaidd yn cael eu cadw'n ddiogel ar gyfer y genedl."

*Llun tudalen 4*

**Seren Bêl-droed newydd i Gymru**

Ers i Gareth Bale gynt o'r Eglwys Newydd sgorio "hat trick" i'w dîm Tottenham Hotspur yn y gêm yn erbyn tîm Inter-Milan nos Fercher 20 Hydref mae pawb yn siarad amdano ac mae wedi dod yn seren dros nos a llawer o glybiau pel



droed bellach yn gobeithio ei ddenu i chwarae iddyn nhw. Ond dim ond 21 oed ydyw ac ar hyn o bryd mae wedi mynegi ei awydd i aros gyda'i dîm presennol er mwyn ennill profiad cyn mentro i'r byd mawr. Pob llwyddiant iddo.

 ISSN 1362-7546

Y Dinesydd

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Hywel Jones
**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Sian Parry-Jones

**Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn**
**Chwefror 2011**
**erbyn 20 Ionawr at:**
Sian Parry-Jones
87 Halliard Court,
Caerdydd CF10 4NH
sepj@cardiffbay.clara.co.uk
07985 043633

**MANYLION CYSYLLTU**
**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
JamesEW@caerdydd.ac.uk
029-2062-8754)

**Hysbysebion**
Menter Caerdydd,
42 Lambourne Cres,
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien,
Caerdydd CF14 5GG
hysbysebu@dinesydd.com;
029-20689888)

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones, 22 Blaen-y-Coed, Radur,
Caerdydd. CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan
Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths
a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

# Cor Meibion Taf

(parhad o dudalen 1)

Y bore wedyn tra bod y cefnogwyr yn cael cyfle arall i grwydro fe fuon ni'r cantorion yn ymbincio a'n gwisgo'n barod ar gyfer y gyngerdd. Amser cinio dyma fynd draw i Neuadd Albert, a ailfedyddiwyd y penwythnos hwnnw yn Neuadd John Albert, i ymuno â'r pedwar ar bymtheg o gorau eraill oedd yn rhan o'r ŵyl. Cawsom gyfle i ymarfer gyda band pres Cory, y gyfeilyddes Annabel Thwaite a rhyw fachan o'r enw Rob Nicholls ar yr Organ, y cyfan dan arweiniad hwyliog Alwyn Humphreys.

Ar ôl swper ysgafn yng Ngholeg Imperial fe ddychwelon ni i Neuadd Albert yn barod ar gyfer y gyngerdd.

Gyda Neuadd Albert dan ei sang fe ddechreuon ni'r gyngerdd gyda Chorws y Milwyr o Faust cyn bwrw drwy rhaglen amrywiol oedd yn cynnwys gwaith Lennon & McCartney, Gilbert a Sullivan, Dafydd Iwan, Karl Jenkins a William Williams Pantycelyn.Yr unawdwyr y noson honno oedd y soprano Elizabeth Donovan a'r bariton David Kempster ac un o uchafbwyntiau'r noson heb os oedd ymddangosiad annisgwyl Rhys Meirion i ganu deuawd y Pysgotwyr Perl.

Yn ogystal â Chôr Meibion Taf roedd Corau Meibion Caron, Cambrian, De Cymru, Dowlais, Heddlu Henffordd, Huntingdon, Mynydd Cynffig, Shelfield, Wycombe a Chymry Llundain yn perfformio. Fe gawsom ni ymateb gwych gan y gynulleidfa wrth gloi'r noson gyda'r Tangnefeddwyr a Bryn Myrddin fel encore.

Wedi'r gyngerdd roedd cyfle i gymdeithasu nôl yn y gwesty yng nghwmni Côr Caron gan gau pen y mwdwl ar benwythnos bendigedig yn Llundain.

Ry' ni wedi cael gwahoddiad i ddychwelyd i Lundain ymhen dwy flynedd ac mae'n siŵr y bydd yna frwdfrydedd mawr ymhlith aelodau'r Côr i wneud hynny.

**HYSBYSEB**

GOFOD SWYDDFA
Swyddfa wedi'i dodrefnu yng nghanol y ddinas.
Addas i unigolyn neu gwmni bach/canolig.
1 neu 2 ystafell braf ar gael.
Telerau rhesymol iawn.

Manylion: 029 2023 1722

### Awyren ddŵr ar gyfer y Bae

Mae cwmni o'r Alban yn awyddus i sefydlu gwasanaeth awyren ddŵr ym Mae Caerdydd a fydd yn denu llawer o ymwelwyr i fanteisio ar y cyfle i hedfan uwchben y ddinas ac ardaloedd eraill yn Ne Cymru. Bydd lle i ddeg o deithwyr yn yr awyren a'r gost am daith fydd tua £139 y pen. Os ceir caniatâd ar gyfer y fenter hon bwriedir dechrau'r gwasanaeth ym mis Mawrth 2011.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF14 1DJ
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, Caerdydd. CF11 9DE
**PETHAU BYCHAIN**, 20 Stryd Bute, Mermaid Quay, Bae Caerdydd. CF10 5BZ
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b, Heol y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6HF
**HALLS**, 44, Stryd Fawr, Llandaf, . CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, Caerdydd. CF24 3PA
**SIOP Y BONT**, Marchnad Pontypridd, Pontypridd. CF37 2ST
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth. CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri. CF62 7EA
**THE CHOCOLATE BOX**, Boverton Road, Llanilltud Fawr. CF65 1YA
**THE LITTLE SHOP OF CALM**, 1 Westgate, Y Bontfaen. CF71 7AQ
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien

### Croeso'n ôl i Gaerdydd

Bu tri disgybl o Ysgol Gyfun Glantaf sef Ilid Haf, Cadi Allen a Manon Richards draw ym Mhatagonia gyda chriw o bobl ifanc yr Urdd yn Ne Cymru gan gymryd rhan yn Eisteddfod y Wladfa ar ddiwedd mis Hydref. Enillodd y criw nifer o wobrau yn yr Eisteddfod yn ôl y sôn.

# Y Gorau o Gymru



**Cwlwm Busnes yn cyflwyno Gwobr Busnes Newydd 2010**

*Y Gorau o Gymru* yw'r gorau o fusnesau newydd Caerdydd a'r Cylch.

Dechreuodd cwmni gwyliau ar-lein Gareth Mahoney a Llion Pugh - *Y Gorau o Gymru* - fasnachu ym mis Mawrth 2010 ac o fewn y naw mis cyntaf, llwyddodd y cwmni i gynhyrchu trosiant o £198,000. Ddoe (25 Tachwedd 2010) bu'r cwmni hefyd yn dathlu ar ôl ennill Gwobr Busnes Newydd 2010 Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch a noddir gan *Venture Wales*.

Nod y gystadleuaeth yw cydnabod a cheisio ysgogi busnesau newydd yn ardal Caerdydd a'r Cylch. Eleni, rhoddwyd gwobr o £1,000 i'r cwmni buddugol sydd yn hyrwyddo a chymryd archebion ar ran bythynnod gwyliau pedair a phum seren ar hyd a lled Cymru, a hyn oll ar lein.

Ymhen pum mlynedd, y gobaith yw y bydd lleiafswm o 300 o fythynnod ar y wefan a byddant yn derbyn archebion am o leiaf 70% o'r flwyddyn i bob bwthyn ar gyfartaledd.

Yr hyn sy'n unigryw am *Y Gorau o Gymru* o fewn y diwydiant bythynnod gwyliau, yw'r ffaith ei fod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid a pherchnogion dros y ffôn a thrwy e-bost. Diolch i wobr Cwlwm Busnes, bydd Gareth Mahoney a Llion Pugh hefyd yn medru cyfieithu'r wefan a sefydlu *Y Gorau o Gymru* fel y dewis cyntaf i siaradwyr Cymraeg sy'n chwilio am wyliau mewn bwthyn hunanarlwyo moethus yng Nghymru. Bydd yr arian hefyd yn galluogi'r cwmni i ddenu mwy fyth o siaradwyr Cymraeg sydd yn gosod bythynnod i restru eu llety ar ein gwefan.

Er mai ond dau aelod o staff sydd gan y cwmni ar hyn o bryd, y nod yn y pen draw yw sefydlu *Y Gorau o Gymru* fel busnes hyfyw sy'n gwneud elw digonol i gynnal cyflog dau gyfarwyddwr yn ogystal â chreu swyddi newydd i eraill.
Yn ôl Gareth Mahoney, mae'r cwmni wedi bod yn perfformio'n well na'r disgwyl:

"Ein targed ar gyfer ein blwyddyn gyntaf oedd cael 50 o fythynnod ar y wefan. Erbyn mis Medi, ar ôl llai na saith mis o fasnachu mae gennym 96, a hyd yn oed mwy ar y gweill. Rydyn ni hefyd yn llwyddo i gwrdd â disgwyliadau ein perchnogion ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â'n cwsmeriaid ac felly'n sicrhau enw ac ewyllys da tuag at y cwmni."

**Cydymdeimlo â**

Theulu y diweddar Jeanne Crabb, y Bont-faen a fu farw'n dawel yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr ar 12 Tachwedd. Bu'r angladd yn y Bont-faen ar 23 Tachwedd ac yna yn Amlosgfa Llangrallo.

# Cystadleuaeth Newydd i Fusnesau

Bydd busnesau bychain yn Ne Ddwyrain Cymru yn cael eu gwobrwyo am eu twf cynaliadwy a'u defnydd o'r iaith Gymraeg, diolch i wobr busnes newydd. Mae Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch wedi partneru gyda Menter Cymru (Venture Wales) i greu'r wobr. Bydd yr enillydd yn derbyn tlws a gwobr o £1000.

Mae'r wobr ar agor i unrhyw fusnes maint bychan neu ganolig a sefydlwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'n rhaid bod y busnes wedi llwyddo eisoes yn ei faes dewisiedig, ac wedi profi bod ganddo'r potensial i dyfu mewn modd cynaliadwy ac wedi defnyddio'r iaith Gymraeg wrth iddo ddatblygu.

Dywedodd Wyn Mears, Cadeirydd y Cwlwm: "Nod y wobr yw dathlu llwyddiant busnesau bychain. Rydym yn gobeithio darganfod enghreifftiau gwych o sut gall yr iaith Gymraeg fod yn gaffaeliad i dwf a llwyddiant, gan ddefnyddio'r gystadleuaeth fel modd i annog busnesau eraill i ddefnyddio'r iaith yn Ne Dwdyrain Cymru. Rydym yn dra diolchgar i Menter Cymru am eu haelioni wrth noddi'r gystadleuaeth eleni".

Disgwylir i'r ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais er mwyn adlewyrchu eu strwythur a'u hamcanion, gan ddangos sut y llwyddwyd i sefydlu'r fusnes, a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gwahoddir rhestr fer o gwmnïau i ymddangos gerbron panel o feirniaid, a cyhoeddir yr enillydd mewn cyfarfod arbennig o'r Cwlwm ym mis Rhagfyr 2010.

Manylion pellach ar wefan Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch www.cwlwmbusnescaerdydd.com

Nod ac amcan Cwlwm Bus-nes Caerdydd a'r Cylch, sef cymdeithas o bobl busnes Caerdydd a'r cyffiniau, yw codi proffil y Gymraeg ym myd busnes yn y Brifddinas a De-Ddwyrain Cymru a rhoi cyfle i Gymry Cymraeg sydd mewn busnes o bob math i gyfarfod ac i drafod materion yn ymwneud â busnes trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd busnes i ymuno â Chwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch. Croesewir aelodau unigol ac y mae telerau arbennig ar gyfer aelodaeth corfforaethol i gwmniau.



Cymrodorion Caerdydd
Y Llywydd, Dr John Gwynfor Jones, yn cyflwyno'r siaradwr, Peter Keelan, Ceidwad y Casgliadau Arbennig.



Glantaf
Cyflwyno Gwobrau *Media4Schools*



Ar nos Fawrth, Tachwedd 9fed, bu Merched y Wawr yn cyfarfod unwaith eto. Fe'u harweiniwyd gan yr Archentwr, Walter Brooks drwy hanes Patagonia. Mae Mr Brooks ar hyn o bryd yn gwneud ymchwil yn y Brifysgol ar y Drafod, papur Patagonia. Diolchwyd iddo han Mrs Gwen Holt.

Dyma lun a dynnwyd pan oedd Dr Walter Brooks yn rhoi sgwrs Batagonia yng nghyfarfod cangen Caerdydd o Ferched y Wawr ar 9/11/10. Yn y llun gyda Dr Brooks gwelir Swyddogion y gangen Gwen Holt, Shân Morgan a Mair John.



Masnach Deg
Dianne Bartholomew, Siopa Teg, Chris Franks AC



Merched sgio Glantaf



Llyfrau Hanesyddol
Chris Franks AC yn y Senedd

## Cymrodorion Caerdydd

Pan sefydlwyd Cymrodorion Caerdydd yn 1885 (125 mlynedd yn ôl) bu cysylltiad agos o'r dechrau rhwng y Gymdeithas a'r Coleg Prifathrofaol (Prifysgol Caerdydd yn awr), hynny drwy unigolion megis Cochfarf, T Francis Roberts, y Prifathro J Viriamu Jones, Alfred Thomas (Arglwydd Pontypridd) ac eraill. Wedi i Lyfrgell Rydd Caerdydd (h.y. y Llyfrgell Gyhoeddus) gael ei sefydlu yn 1862, ac yn enwedig wedi i John Ballinger ddod yn bennaeth arni yn 1885, tyfodd casgliadau'r llyfrgell honno yn sylweddol a daeth yn gartref i nifer helaeth o brif drysorau llawysgrifol a llyfryddol y byd.

Gyda threigl y blynyddoedd sicrhawyd (drwy brynu a thrwy roddion gan wŷr busnes blaenllaw Caerdydd) nifer fawr o eitemau prin i'r Llyfrgell – eitemau yn cynrychioli pob agwedd o'r byd cyhoeddi o ddechreuad argraffu, sef incunabula, i gynnwys Beiblau (o bob cyfnod), cyfrolau o fapiau cynnar (gweithiau Ogilby, Bowen, Speed ac eraill), llyfrau cynnar Saesneg ac o wledydd cyfandir Ewrop (cyhoeddiadau printiedig Groeg, Rhufain a Chaergystenin), casgliad helaeth o ddramâu cyfnod yr Adferiad, enghreifftiau gwych o gynnyrch gweisg preifat megis y Golden Cockerel, Kelmscott, Nonsuch, cyfnod cyntaf Gwasg Gregynog a gwasg Thomas Johnes yr Havod – rhain wedi eu prynu yn bennaf yn ystod cyfnod Harry Farr, olynydd Ballinger fel llyfrgellydd, oherwydd ei ddiddordeb personol ef mewn agraffiadau a rhwymiadau cain.

Hefyd yn 1896 aeth yr Athro Thomas Powell, Athro Celteg y Coleg, i fyny gyda Ballinger i weld y llyfrau a'r llawysgrifau Cymraeg yn llyfrgell Syr Thomas Phillipps yn Middle Hill, swydd Gaerwrangon, ac argymell bod Cyngor Tref Caerdydd yn eu prynu. Fe wnaed hynny gyda chefnogaeth pobl fel Ardalydd Bute, a gyfrannodd fil o bunnau tuag at y gost o'u prynu (un o'r trysorau yn y casgliad wrth gwrs oedd Llyfr Aneirin).

O gofio hyn i gyd, syndod a thristwch mawr oedd deall, ryw ddwy neu dair blynedd yn ôl, bod Cyngor Caerdydd yn bwriadu gwerthu rhan helaeth o'r casgliadau cynnar hyn. Fel y gŵyr darllenwyr y papur hwn erbyn hyn, bu ymdrech galed gan unigolion a chymdeithasau (Cylch Llyfryddol Caerdydd a'r Cymrodorion yn flaenllaw yn eu plith) i berswadio Cyngor Caerdydd mor ann oeth ac anghyfrifol oedd y bwriad hwn. Yn y diwedd, wedi llawer o drafodaethau rhwng y Brifysgol, Llywodraeth y Cynulliad, a Cymal (y Cyngor Ymgynghorol ar Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd) fe lwyddodd y Brifysgol i brynu'r casgliad a rhoi cartref newydd iddo yng Nghasgliadau Arbennig ac Archifau'r Coleg (Scolar) a'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Ar nos Wener, Tachwedd 5ed, cafodd y Cymrodorion y fraint o gael ymweld â Llyfrgell y Coleg a chael clywed Peter Keelan, Ceidwad y Casgliadau Arbennig, yn sôn am gefndir yr ymgyrchu i brynu'r casgliad ac am gynlluniau'r Llyfrgell i'w ddatblygu yn gynsail ar gyfer gwaith ymchwil gan ôl-raddedigion. Yn wir mae gwaith ar rannau o'r casgliad eisoes ar droed gan rai o'r myfyrwyr. Dywedwyd hefyd bod croeso i bobl o'r tu allan i ddefnyddio adnoddau llyfrgell y Brifysgol - wedi trefnu ymlaen llaw. Mae tua hanner dwsin o deitlau enghreifftiol o'r gwahanol gyfnodau o'r casgliad wedi eu digideiddio a gellir eu gweld ar y we. Cafwyd peth o hanes cyn-berchnogion rhai o'r eitemau a soniwyd bod llawer ohonynt yn unigryw, a bod eraill yr unig gopïau sydd wedi goroesi ar wahân i'r copïau sydd yng nghasgliadau'r Llyfrgell Brydeinig.

Diolchwyd i Peter am drefnu'r noson werthfawr hon gan Lywydd a hanesydd swyddogol y Cymrodorion, y Doctor John Gwynfor Jones.

*Llun ar dudalen 4*

## Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Nos Wener Tachwedd 26ain cafwyd noson arbennig iawn yn Neuadd y Pentref Dinas Powys. Noson elusennol flynyddol Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys oedd hon a'r dewis o elusen eleni oedd Sefydliad y Galon/Cymru er cof am un o'n haelodau a fu farw yn erchyll o sydyn ym Mis Mai eleni - Peter Elias Jones.

'Roedd hi'n noson rewllyd oer ond serch hynny daeth tua 18 o aelodau Côr Meibion Taf atom ni i'n diddanu. Rhoddwyd croeso cynnes iawn iddyn nhw ac fe gafwyd cyngerdd gwych. Cawsom gymysgedd o emynau a chaneuon gwerin a "American trilogy" - a phob un yn fwynhad pur. 'Roedd cymeradwyaeth gwresog y gynulleidfa a'r galw am "mwy, mwy" yn arwydd ddigon o gymaint oedd pawb wedi mwynhau.

Ar ôl y bwyd a'r bar a'r gyngerdd cafwyd canu cynulleidfaol i ddiweddu'r noson. Rhoddwyd llyfrau o eiriau'r caneuon i bawb ac o dan anogaeth frwd Rhodri Jones a Mags Harries wrth y piano cafwyd canu pedwar llais oedd yn llanw'r neuadd. "Curo clefyd y galon gyda'n gilydd" yw slogan Sefydliad y Galon yng Nghymru - a dyna wnaethom ni - codi llais i godi arian a phleser mawr yw cyhoeddi i ni gasglu swm sylweddol er cof am Peter. Fe fyddwn yn trosglwyddo siec i ddwylo Sefydliad y Galon/ Cymru ar ol ein gwasanaeth Nadolig ar yr 20fed Ragfyr. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Dachwedd bu Neville Evans yn sôn am E.G.Bowen, y ffisegydd, nid y daearyddwr disglair yn y brifysgol yn Aberystwyth erstalwm, sy'n rhannu'r un llythrennau yn ei enw. Roedd tri phrif reswm dros roi sylw i Edward George ('Taffy' i'w gydwyddonwyr ar hyd ei yrfa y tu allan i Gymru). Yn gyntaf, ganed a maged Eddie (dyna'r enw a ddefnyddid gan rieni Neville) yn Abertawe, tref enedigol Neville. Yn ail, eleni yw blwyddyn nodi 70 mlynedd ers cyflafan y blitz gan luoedd awyr yr Almaen ar Abertawe (darllener cerdd Waldo i'r Tangnefeddwyr) a mannau eraill, er enghraifft Coventry, a ddifrodwyd union 70 mlynedd i ddyddiad y ddarlith. Ym Mrwydr Prydain manteisiodd lluoedd awyr Prydain yn fawr ar ddefnyddio dyfais y bu Bowen yn arloeswr yn ei ddatblygiad. Yn drydydd, bydd 14 Ionawr 2011 yn ganmlwyddiant geni Bowen a felly yn digwydd odd ifewn i raglen y Gymdeithas Wyddonol.

Cyfeiriodd Neville at ei gof cyntaf o glywed sylw ei rieni, 'Roedd Eddie Bowen yn gwneud pethau od ar y Mynydd Newydd'. Tir comin nepell o Fforestfach oedd Mynydd Newydd, ar gyrion gorllewinol Abertawe. Bryd arall byddent yn ymhelaethu gan ddweud, 'Roedd Eddie Bowen yn gwneud pethau od gyda radio ar y Mynydd Newydd'. A dyna ddechrau stori fawr am gyfraniad cwbl greiddiol Bowen i ddatblygiad RADAR (Radio Detection And Ranging), sef y dechneg o o anfon signal radio o orsaf ar y tir mawr i'r awyr lle byddai'n taro rhyw wrthrych ac yn cael ei adlewyrchu (megis eco) a rhan ohonno yn dychwelyd

i'r orsaf. O wybod nodweddion y signalau (cryfder, amledd) roedd modd lleoli'r gwrthrych a darogan ei daith os oedd yn symud.

Camp fawr Bowen oedd arwain y grŵp a lwyddodd i leihau yr holl offer oedd ar y tir mawr a'i osod yng ngofod cyfyng awyren a sicrhau gweithrediad effeithiol. Hyd heddiw mae Bowen yn cael ei gydnabod wrth yr enw 'Father of Airborne Radar ' (Tad Radar ar Adain - trosiad teg?).

Mae'r hanes hwn am Bowen a llawer agwedd arall o'i yrfa ddiddorol a llwyddiannus ar gof a chadw mewn sawl llyfr ac ysgrif ledled y byd. Llawer llai o wybod sydd am ei gyfraniad gwerthfawr mewn brwydr arall, sef, y frwydr i gael gwasanaeth radio i Gymru yn y cyfnod 1925 - 1935. Dyma gyfnod o ddadlau brwd a ffyrnig ar sail gwleidyddiaeth a diwylliant rhwng selogion Y Pethe yng Nghymru ac awdurdodau'r BBC yn Llundain. Amharod, a hynny'n ddigon sarhaus yn aml, oedd ymatebion Llundain, gyda John Reith Pennaeth y Gorfforaeth, yn ffiaidd o wrthwynebus a dilornus. Wrth iddo sylweddoli nad oedd ganddo ddadl gref dros wrthod y galw diwylliannol, mentrodd ddatgan bod mynyddoedd Cymru yn rhwystr anorchfygol (o raid) i daith tonnau radio.

Dyna ei gamgymeriad mawr oherwydd roedd E.G.Bowen ('a mad young nationalist') wrth law. Defnyddiodd Bowen ei ffiseg i wrthbrofi honiadau Reith parthed dylanwad y mynyddoedd a dangos y ffordd i weithredu gwasanaeth radio. Croniclir holl hanes helyntion sefydlu gwasanaeth radio i Gymru yn ddifyr iawn gan R. Alun Evans yn ei lyfr Stand By. Anrheg Nadolig neu Galan!

Felly, pan fyddwch nesaf yn elwa o gyfraniadau radar (yn lleng erbyn hyn) ac yn gwrando ar Radio Cymru, offrymwch, 'Diolch Eddie'.

# Ysgol Gyfun Glantaf

**'Amser Maith Ymlaen' gan Caryl Parry Jones, Tony Llywelyn**

Mawr fu'r disgwyl am sioe gerdd arall gan Ysgol Glantaf yn dilyn llwyddiannau ysgubol y sioeau blaenorol, 'Byd Islaw'r Bont' a 'Branwen'.

Mae'r sioe arbennig yma, 'Amser Maith Ymlaen' wedi ei gosod yn 2099 ac mae Haman [Dafydd Lansley] yn llywodraethu ar y bobl mewn modd awdurdodol a chas. Aron [Mathew Miles] a Siwan [Naomi Davies] sydd yn brwydro yn erbyn y gydymffurfiaeth atgas yma, ac wrth gwrs, maent yn cael eu cosbi maes o law. Eu cosb yw cael eu taflu i fewn i beiriant amser Dr. Baglan [Owain James] a Hanna [ Elan Evans], ac maent felly yn cael eu cludo yn ôl i'r gorffennol, ac o ganlyniad fe welwn ddawnsio gwerin a chapeli traddodiadol 1904, adeg rhyfela y 40au a cherddoriaeth a dawnsio unigryw y 50au, sioe felly sydd yn cynnig ychydig o bopeth i'r perfformwyr ac i'r gynulleidfa.

Bu'r criw yn ymarfer yn ddiwyd ers canol Medi, yn gast, corws, dawnswyr ac offerynwyr, roedd 170 o ddisgyblion yn cymryd rhan i gyd. Roedd graen a sglein arbennig ar y cyfan, a'r cynhyrchiad yn broffesiynol a slic. Dyma gwir berfformiad o'r radd flaenaf a fyddai yn teilyngu llwyfan ehangach.

Roedd y neuadd o dan ei sang am y tair noson, a'r hwyl a'r rhialtwch a'r lliw a'r golau yn wych. Yr hyn oedd yn amlwg oedd y cydweithio tîm arbennig rhwng staff a disgyblion a'r mwynhad pur oedd ar wynebau y llu disgyblion.

Ar ran yr holl ddisgyblion, hoffem ddiolch i bob un o'r athrawon am eu gwaith caled a'u hymroddiad ar hyd y misoedd diwethaf yma. Ymlaen at y nesaf!!

Mi fydd 'Amser Maith Ymlaen' yn sioe a fydd yn aros yn hir iawn yn y cof.

**CYFLWYNO GWOBRAU**
**Media4Schools**
*Llun ar dudalen 4*

Y llynedd yn y *Media4Schools Awards*, enillodd James Huntley'r wobr gyntaf am y cyflwynydd gorau a daeth Lily Hibbard yn ail. Eleni cawsant y fraint o gyflwyno'r holl seremoni wobrwyo eu hunain.

Nid ar chwarae bach y mae sefyll o flaen cynulleidfa sy'n llenwi sinema gyfan yn Cineworld. Roedd y cynulleidfa yn cynnwys pobl flaenllaw o gynghorau sir ardaloedd y De, pobl flaenllaw o fyd y cyfryngau megis Sony a Boomerang, i enwi ond rhai o noddwyr yr achlysur. Yn y gynulleidfa hefyd roedd disgyblion a'u hathrawon yn disgwyl yn eiddgar i weld os oedd eu ffilm arbennig nhw wedi ennill neu beidio.

**Llwyddiannau ar y llethr sgio**
Llongyfarchiadau i bedair o ferched y chweched wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth sgio ysgolion Prydain. Daeth Jeni Thomas i'r brig fel enillydd unigol Pencampwriaeth Sgio Ysgolion Prydain. Llwyddodd Jeni, ynghyd ag Elin Griffith, Gwenllian Williams a Millie Walsh fel tîm, i ddod yn 13eg ymhlith ysgolion Prydain. *Llun ar dudalen 4*

**Entrepreneuriaeth**
Rhwng y 15fed a'r 20fed o Dachwedd bu'r ysgol yn dathlu Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang, ond mae'r ysgol wedi bod yn cynnal gwersi entrepreneuriaeth ers dros dair blynedd yn barod.

Mae blwyddyn 10 yn cael gwersi galwedigaethol ac un o'r opsiynau sydd ar gael ydy Entrepreneuriaeth. Mae'r disgyblion yn derbyn her i ddechrau eu busnes eu hunain gyda dim on £5 i ddechrau. Yn ystod y gwersi Entrepreneuriaeth mae'r disgyblion yn adrodd ar eu cynnydd. Mae'r rheolau yn syml, dechrau gyda £5, ac ar ddiwedd y cyfnod mae angen talu 33% o'r elw i'r bobl a gefnogodd y fenter gyda'r £5 gwreiddiol,£33% i elusen ac mae'r entrepreneur ifanc yn cael cadw 34%. Wrth reswm mae rhaid i'r busnes fod yn gyfreithiol ac yn gefnogol i ethos yr ysgol.

**Academi CISCO**
Cyfrifiaduron yn cael eu hadnewyddu, Nintendo wii's a Xboxes yn cael eu trwsio a sgriniau iPhones yn cael eu hailosod.

Yn dilyn sefydlu cwrs adnewyddu cyfrifiaduron ac academi Cisco yn yr ysgol, mae nifer o ddisgyblion wedi dechrau adnewyddu eu cyfrifiaduron, a thrwsio eu dyfeisiau electronig eu hunain. Dywedodd Cory James o flwyddyn 10 ei fod e wedi trwsio sgrîn ei iPhone eu hun: "Roedd y siop eisiau £50 ond llwyddais i drwsio'r ffôn am £10". Mae Joel Murphy Blwyddyn 12 yn hen law erbyn hyn ar ôl trwsio degau o Xboxes gyda'r *Red Ring of Death*. Dywedodd Joel: "Roedd problem gordwymo gyda'r XBox 360, mae e'n eithaf hawdd trwsio'r broblem hon".

Dywedodd Mr Mathew Mathias, Pennaeth Academi CISCO Ysgol Glantaf; "Prif nod dechrau'r cwrs oedd paratoi disgyblion am yrfa yn y byd technolegol ond mae mwy a mwy o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau i drwsio dyfeisiau electronig bob dydd. Maen nhw'n newid sgrîn ffôn symudol fel mae rhai yn newid plwg trydan."

## Hysbysebu yn y Dinesydd

**Tudalen Gyfan A4: £200**
**Hanner Tudalen A4: £110**
**Chwarter Tudalen A4: £60**
**Wythfed Tudalen A4: £35**

**Gosod taflen ar wahân £100 - £250**

**Cysylltwch â**
**hysbysebu@dinesydd.com**
**neu Meleri Beynon,**
**Menter Caerdydd**
**029 20689888**

***www.dinesydd.com***

**BAY Resourcing**

**Asiantaeth Cyflenwi Athrawon**



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol galwn gynnig:

**Gwaith Rheolaidd**
•
**Amserlenni a dyddiadur ar-lein**
•
**Cyfraddau dyddiol cystadleuol**
•
**Lwfans Teithio a Chinio**

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE

**HYSBYSEB**


**Dataglo**

Gwasanaeth gweinyddol ac ysgrifenyddol. Os hoffech help gyda gwaith swyddfa o bob math, cofnodion cyfarfodydd, neu i drefnu digwyddiad neu gyfarfod, ffoniwch 07779 360614 ebost: heulwen@dataglo.com

Telerau rhesymol


## CROESAIR
**Rhif 109**
**gan**
**Rhian Williams**

**Atebion i:**
**22, Heol Cae Rhys,**
**Rhiwbeina,**
**Caerdydd. CF14 6AN**
**i gyrraedd erbyn**
**18 Rhagfyr 2010.**



**Ar Draws**

1. Gwyr Mai ffordd arall i wnio (7)
6. Reis ia yn troi'n danbaid (6)
7. A yw radio llo yn cadw amser? (7)
9. Lle i orwedd fel clwyf i'r glust (5)
10. '______'r awel fwyn
 Dros fryn a dôl' (cyf J.H) (8)
12. Eithr ofned ar yn ail (3)
13. Cwrtais ar yn ail ond aflafar (4)
14. Y dyn cyntaf i ddechrau siarad yn iawn (4)
15. Un o'r teulu o'r dwyrain (3)
17. Mae Glesni ni wedi drysu yn y parc efallai? (8)
18. Nam troi i gyd yn uchel iawn (5)
20. Man yfed amheus! Dacw'r ffordd i mewn (7)
21. 'R oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn _____
 Eu praidd rhag eu llarpio'n un lle' (Anad) (7)
22. 'Duw ____, iddo cenir
 Gan drigolion nef a llawr' (Anad) (7)

**I Lawr**

1. Gwaed y ___ ___ ___ ___ graith
 Na welir moni eilwaith (J.W) (5, 1, 4, 1)
2. Cyrfff heb air yn codi Dai a'r aur di-ddiwedd (8)
3. Rhoi sgrech wrth wasgu oren da (6)
4. '____ glychau'r creigle uchel
 Fflur y main, ffiolau'r mêl (E.W) (4)
5. Rhyw ecogras yn y cerrig mân (7)
8. 'Pa ddiethr wawr ___ ___ ___ ___?
 Pa ryw dragwyddol ddydd?' (B.D) (2'1, 3, 1, 4)
11. 'Tua Bethlem dref
 Awn yn fintai gref
 Ac ___ ___ (W.I) (6, 2_)
13. Os creffi yn ddi-ddiwedd ar y dorf cai un celfydd (7)
16. Disgrifiwch fel anadl yng nghanol niwl yr aig (6)
19. Ymweled mewn glaw stormus (4)

**Atebion Croesair Rhif 108**

**Ar draws:** 6 Pechod barodd iddo. 8 Eglurdeb. 9 Bwyta. 10 Tymor. 12 Cropian. 13 N'ôl marw. 15 Manna. 16 Afael. 17 Cellwair. 19 Ddanadl poethion. **I Lawr.** Uchel. 2 Adarwr. 3 Saib. 4 Colbio. 5 Diffygion. 6 Plentynnaidd. 7 O Garn Fadryn. 11 Moliannu. 12 Cyw. 14 A chlod a. 15 Mallter. 17 Copa. 18 Asia.

**Croesair Rhif 107**

Derbyniwyd saith ymgais a phump ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Huana Simpson, Llansannwyr.

## YMATEB DARLLENWYR

Hoffai golygyddion a Phwyllgor Y Dinesydd glywed barn ein darllenwyr.
**Pa rannau o'r Dinesydd sy o fwyaf o ddiddordeb i chi?**
**Pa fath o destunau newydd fyddai o ddiddordeb i chi?**
Rhowch wybod i ni - ac unrhyw sylwadau eraill - drwy e-bostio

**ydinesydd@gmail.com**

Cofiwch hefyd ein bod ni wastad yn falch o glywed oddi wrth ohebyddion newydd - rhowch wybod os hoffech chi gyfrannu mewn unrhyw ffordd.
**Edrychwn ymlaen at glywed gennych.**

## PASPORT



**Gogleddwr sydd wedi symud i lawr i Gaerdydd yn y 90au sy'n cael ei holi y mis yma...**

**Be ydy dy enw di?**
Hywel Roberts
**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Bangor yn wreiddiol, ond y teulu wedi symud i lawr i Gaerdydd ym 1992.
**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Grangetown
**Beth fuest ti'n ei wneud cyn/ar ôl symud yma?**
Cyn symud i lawr i'r Brifddinas, roeddwn i'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd y Garnedd, ym Mangor. Ar ôl gorffen fy nghyfnod yn Ysgol Gyfun Llanhari es i mlaen i Goleg y Drindod i astudio Theatr Cerdd a'r Cyfryngau, ac yna MA yr Actor a'i lwyfan, ym Mangor eto. Dwi'n gweithio yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd ers i'r lle agor yn Nhachwedd 2004. Llynedd cefais y fraint o weithio fel swyddog Iaith Dyffryn Camwy, i Fenter Patagonia. Profiad bythgofiadwy! Ac i'w wneud yn fwy cofiadwy, gwnaeth Elin a minnau ddyweddïo yn nhŷ Bwyta Gwalia Lân, yn y Gaiman.
**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Fy mhrif beth i yw cymdeithasu, ond dwi'n hoff iawn o nifer o bethau gwahanol, o ddarganfod llefydd newydd i fwyta i fynd i wylio'r sioeau yn y theatrau o amgylch y ddinas.
**Beth sy'n dy wylltio di?**
Does 'na ddim lot o bethau yn fy ngwylltio i. Dwi'n ddigon bodlon hefo popeth
**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**
Dwi'n hoff iawn o fynd i unrhywle ar fy ngwyliau, rhaid dweud. Ond dwi wir wedi disgyn mewn cariad â'r Wladfa a De America. Rydym ni'n gobeithio mynd nôl i deithio ac ymweld â ffrindiau yno y flwyddyn nesaf ar ein mis mél.

# Colofnydd y Mis

**Lawr yn y Ddinas**

Ffoniodd fy mab Huw o Efrog Newydd y noson o'r bla'n i weud ei fod wedi dyweddïo â'i gariad Sara. Newyddion gwych! Rydym yn adnabod Sara ers pum mlynedd ac yn hoff iawn ohoni. Mae hi'n gweitho yn swyddfa Jill Evans, AS Plaid Cymru, yn Senedd Ewrop. Mae'r ddau wedi teithio'r byd yng nghwmni ei gilydd a dyw Huw ddim yn meddwl dwywaith am bendilo rhynt Caerdydd, Llunden a Brwsel.

Fel y gwetais wrth Huw, ni es i ymhellach na Chaerdydd i ganlyn merch yn y Pum Dega. Er ei fod yn ddim ond tua deng milltir i lawr y Cwm o Drefforest, ro'dd e'n hanner awr i ffwrdd ar y trên ac yn twmlo llawer pellach rhywsut. Do'dd pobol y Cymo'dd yn y dyddia 'ny ddim yn mentro i'r ddinas oni bai eu bod am brynu rhywpath spesial neu'n bwriadu hala bach o arian yn y siopa mawr fel David Morgan neu Howells. Yn fy achos i, yr amcan o'dd ymweld â'r Farchnad i fwyta cocos a wincos, prynu stampia yn un o'r Arcêds oddi ar Yr Ais, pori am awr yn siop llyfra Beti Rhys, bwyta cyw iar 'yn y fasged' yn y Kardomah, ac wrth fynd yn hŷn ac ar esgus gloywi fy nghrap ar yr iaith, gwylo ffilmia Ffrangeg yn Sinema'r Glôb, cyn dala'r trên olaf lan y Cwm tuag un ar ddeg o'r gloch. Ceso'i diwrnod o bleser pur am rhyw ddeg swllt. Yr unig orchymyn gan ein rhieni carcus o'dd i beido mynd ymhellach na'r bont ar waelod Hewl Santes Fair, oblegid dyna lle ro'dd y Lascars yn byw yn Tiger Bay. Ac wrth gwrs, mentro a wnaethom a gweld myrdd o rhyfeddoda. I fechgyn y Cymo'dd ro'dd Caerdydd yn gyfystyr â fod yn fentrus, yn drendi, yn soffistigedig, yn fohemaidd hyd yn o'd. Ond rwy'n siwr fod Huw a Sara eisio's wedi ehangu eu gorwelion y tu hwnt i ffinia cyfyng ein byd bach ni. Pob lwc iddynt, wetwn i.

**Anrheg Nadolig Ddelfrydol**

Mae nofel fer gan yr Athro Meic Stephens sy'n dychanu Tywysog Cymru a phawb sy'n cynnal y Frenhiniaeth yng Nghymru yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ym mis Rhagfyr. Mae'n dwyn y teitl *A Bard for Highgrove: a Likely Story* a'r cyhoeddwr yw Llyfrau Cambria, Caerfyrddin.

'Wedi ysgrifennu'r llyfr hwn, dw'i ddim yn disgwyl cael OBE,' meddai Meic. 'Ond gobeithio fod gan y Prins synnwr digrifwch.'

Y bardd yn y teitl yw Cerys Gifford Huws ac mae hi'n cael ei phenodi i fod yn Fardd Teulu i'r Tywysog. Rhan o'i dyletswydd yw gloywi ei Gymraeg a'i helpu i Gymreigyddio ei Dywysogaeth. Mae'r trwbwl yn dechrau wrth i'r Prins gymryd hyn o ddifrif, gan archebu deg copi o bob llyfr Cymraeg i'w Lyfrgell ac apwyntio Cymry Cymraeg i'w staff. Ymhen ychydig, mae e'n ceisio hyrwyddo'r Gymraeg yn Lloegr hefyd, yn enwedig mewn llysoedd barn, arwyddion ffyrdd dwyieithog, yr ysgolion a'r papurau Sul. I'r rhai sy'n cwyno a phrotestio, mae e'n dweud, 'The Welsh had to put up with everything in a foreign language for centuries, so now let the English get a taste of their own medicine.' Erbyn 2020, wedi i'r Alban adael yr Yookay, mae Charles Windsor wedi gollwng ei hawl i'r orsedd, mae'r Frenhines ar fin marw, ac mae Cymru'n troi'n Weriniaeth.

Ymhlith y cymeriadau eraill yn y nofel mae'r Arglwydd Dyfed Goodfellow, Syr Peredur Rice-Boothby, Ysgrifenydd Preifat i'r Prins, a'i wraig The Hon Jane, yr hanesydd Dr Dan Jarvis, Yr Athro Keir Burton, Cadeirydd Cyngor y Celfyddydau, Yr Athro Jack Yorath sy'n Gadeirydd ar bob corff cyhoeddus arall, Rosie Spode sy'n enwog am fod yn enwog, Adam Wyndham Hamlyn y Bardd Mawr yn y mesuruau caeth, Ffredi Twink, Prif Weithedrwr yr Academi, Rhydwen ap Gwyrfai sy'n mynnu diolch i bawb am bopeth, ac yn y blaen. 'Hanner y bleser o ddarllen y llyfr yw ceisio adnabod pwy sydd wedi seilio ar bwy', meddai Meic Tybed a fyddech chi yn adnabod rhai o'r cymeriadau?

Mae *A Bard for Highgrove* ar gael am £7.95 (a £1.50 am gludiant) oddi wrth Cambria, Bocs 22, Caerfyrddin SA32 7YH (tel 01267 290188) admin@cambriamagazine.com

**Awdures doreithiog**

Mae Gwyneth Lewis a gafodd ei magu yn yr Eglwys Newydd ac a fu yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydfedlen newydd gyhoeddi llyfr yn Saesneg yn seiliedig ar un o chwedlau'r Mabinogi sef "The Meat Tree" gan Wasg Gomer am £7.99.

Mae hi eisoes wedi cyhoeddi saith llyfr o farddoniaeth a bu'n cyflawni swydd bardd cenedlaethol Cymru yn 2005-06. Bu'n astudio hefyd ym Mhrifysgolion Harvard a Stanford yn yr Unol Daleithiau a hi yw awdures y geiriau ar adeilad Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd.

Cafodd wybod ei bod yn dioddef o'r afiechyd iselder pan oedd yn ugain oed ac mae hi wedi ysgrifennu llyfr am ei salwch o'r enw "Sunbathing in the rain".

Er bod ei llyfr diweddaraf yn seiliedig ar hen chwedl, nofel ffug wyddonol ydyw mewn gwirionedd.

# Masnach Deg yn dod i'r Cynulliad

Daeth stondin Masnach Deg i'r Cynulliad er mwyn hwyrddo cynnyrch fel cardiau ac anrhegion cyn y Nadolig.

Dywedodd AC Plaid Cymru Chris Franks: "Roeddwn i yn falch o groesawu y stondin i'r Cynulliad. Dwi'n falch iawn mai Cymru oedd y wlad gyntaf i ennill statws Masnach Deg ac wrth fy modd ein bod eleni yn 2010 yn dathlu ein hail benblwydd fel Cenedl Masnach Deg."

"Mae'n galanogol gweld fod gwerthiant nwyddau Masnach Deg yn parhau i gynyddu yng Nghymru a bod mwy a mwy ohonom yn hapus i dalu pris teg am nwyddau bob dydd fel te, coffi a siocled yn ymwybodol ein bod yn cefnogi rhai o'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr tlotaf yn y byd i fasnachu eu ffordd allan o dlodi."

Ychwanegodd Jan Tucker o Siopa Teg yn Dreganna: "Mae Siopa Teg yn falch fod y Cynulliad yn cefnogi masnach deg dros Gymru. Mae hi mor bwysig rhoi cyfle i ffermwyr a chrefftwyr o'r gwledydd tlodaf y byd gael cyflog teg am eu waith'

Mae dros 77% o awdurdodau lleol Cymru yn gweithio tuag at statws Masnach Deg, i gymharu efo dim ond 31% yn Yr Alban a 25% yn Lloegr ynghyd a 804 o ysgolion yn gweithio tuag at ddod yn ysgolion Masnach Deg. Dangosodd arolwg annibynnol diweddar, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fod dros 50% o siopwyr Cymru yn dewis Masnach Deg yn rheolaidd.

Mae safle we www.fairdos.com ar gael ar gyfer mwy o wybodaeth.

**Gwobr i dynnwr lluniau ifanc**

Llongyfarchiadau i Taliesin Coombes sef disgybl yn Ysgol Howell Llandaf ar ennill gwobr mewn cystadleuaeth "Cymrwch olygfa". Roedd ei lun yn cynnwys platiad o ŵy, cig moch ac ati a thrwy'r ffenestr roedd llun trên yn mynd heibio'r caffi ger Gorsaf Ganolog Caerdydd lle tynnwyd y llun. Ceir arddangosfa o dros gant o luniau yn y gystadleuaeth yn Theatr Genedlaethol Llundain.

# Ysgol Plasmawr - Nôl i'r 80au!

Yn ddiweddar, aeth disgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr ar daith 'Nôl i'r 80au'. Dyna oedd teitl y sioe a lwyfanwyd yn neuadd yr ysgol rhwng y 9fed ar 11eg o Dachwedd. Sioe oedd hon a aeth â phlant y 90au yn ôl i fyd Star Wars, Madonna, "leg warmers", ac wrth gwrs y 'Rubik's Cube'.



Sioe yn dilyn hanes Ysgol Uwchradd William Ocean trwy lygaid un o'i chynddisgyblion, Corey Palmer, yw hi. Gwelwn fywyd anodd arddegwyr wrth iddynt garu a chweryla, gyda cherddoriaeth yr 80au yn gefndir i'r cwbl. Dilynwn hynt a helynt Corey wrth iddo ymgeisio am swydd llywydd y flwyddyn yn erbyn seren yr ysgol Michael Feldman. Yn anffodus, mae Michael hefyd wedi cwympo mewn cariad â'r un ferch â Corey sef Tiffany, a gwelwn y ddau yn ymladd am ei sylw.

Er mwyn llwyddo, roedd gofyn gweithio fel tîm, a dyna'n sicr a ddigwyddodd yma gyda'r staff a disgyblion yn uno i lwyfannu'r sioe. Braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn actio a chanu mewn gwisgoedd lliwgar a deniadol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

# Sŵ Bryste

Ar 19eg Hydref aethom ni ar ein trip cyntaf ym Mlwyddyn 7, gyda'r Adran Ddaearyddiaeth, yr holl ffordd i Sŵ Bryste i ddysgu mwy am y coedwigoedd glaw. Yn ystod y dydd cawsom gyflwyniad am ecosystem y coedwigoedd glaw trofannol a'r cyfle i ddal 'Hissing Cockroach', cyffwrdd â 'Milk Snake' ac edrych ar 'tarantula'. Cawsom hwyl a sbri yn crwydro o gwmpas y sŵ gyda'n ffrindiau. Gwelsom lawer o anifeiliaid diddorol ar y ffordd. Aethom am dro o dan y dŵr i wylio'r morloi yn nofio uwch ein pennau! Rhedodd grŵp mawr o ddisgyblion draw at y llewod pan glywsom y rhuo mawr! Mae'r trip i Sŵ Bryste yn mynd i'n helpu gyda'n gwaith a gwneud Blwyddyn 7 yn fwy ymwybodol o'r coedwigoedd glaw trofannol. Diolch i Mr Rowlands a'r Adran Ddaearyddiaeth am drefnu'r trip yma i ni. Cawsom lawer o hwyl!

Elin Devonald Crwys 1 7P

# Newyddion o'r

## Tabernacl, Yr Ais

**Genedigaeth**

Dathlwn enedigaeth Gethin Tomos, sef mab Wendy a Martin Owen sy'n byw yn Radyr. Edrychwn ymlaen at ei weld yn dod gyda'i chwaer Mia i'r Tabernacl yn rheolaidd. Me Wendy yn enedigol o gylch Croesgoch tra bod Martin â'i wreiddiau yn ardal Aberystwyth.

**Cyngerdd y Mil o Leisiau.**

Yn Neuadd Albert eleni cafodd Robert Nicholls ei anrhydeddu drwy fod yn organydd gwadd yr Ŵyl. Llongyfarchwn ef yn galonnog, ac roedd yntau yn falch mai Alwyn Humphries, cyfaill agos iddo oedd yn arwain, a bod Côr Meibion Taf ymhlith y corau ar y llwyfan. Bydd y gyngerdd yn cael ei darlledu ar y teledu dros gyfnod y Nadolig.

**Cymanfa**

Ar nos Sul Tachwedd 21 fe recordiwyd Cymanfa Ganu gan Gwmni Andante ar gyfer Caniadaeth y Cysegr. Roedd cynrychiolaeth o 13 o gorau Caerdydd a phawb yn cytuno ein bod wedi cael noson o ganu bendigedig. Yr arweinydd oedd Alun Guy a Rob Nicholls oedd wrth yr organ. Cafwyd dwy eitem unigol ar yr offeryn gan Rob hefyd. Ar ddiwedd y noson fe wnaed casgliad tuag at Gronfa Organ y Tabernacl.

**Lesotho**

Cynhaliwyd dau ginio ysgafn llwyddiannus iawn, drwy garedigrwydd ein cydaelodau, yn ystod y misoedd diwethaf a'r elw tuag at gynnal y clinig, yr uned mamolaeth a'r gegin yn Lesotho. Dyma'r 15fed cinio ysgafn i'w gynnal ers 2006, gydag elw o dros £4,000!

Yr ail weithgaredd llwyddiannus i'w gynnal oedd Arwerthiant Cist Car ym marchnad Sblot. Gyda llawer o help a hwyl, hwn oedd y chweched arwerthiant tebyg gydag elw o dros £2,000 ers 2006. Bydd pawb yn falch o glywed bod Caselin ac eraill o'r Eglwys yn Sefika yn gobeithio dod i Gymru yn y Gwanwyn. Edrychwn ymlaen at eu croesawu i'n plith.

**Ymweliad Côr Ieuenctid Enfield**

Gwerthfawrogwyd oedfa hyfryd o dan arweiniad Eiri Jones pan ddaeth yn ystod y mis gyda Chôr Ieuenctid Rhyngwladol Enfield yn canu. Roeddent wrth eu bodd yn y capel.

**Cyngerdd i ddathlu atgyweirio'r organ**

Ar nos Sul y 3ydd o Dachwedd roedd achlysur arbennig wrth i'r eglwys ddathlu cwblhau'r gwaith o atgyweirio'r organ. Braint oedd cael Huw Tregelles Williams i ganu'r organ, ar ei newydd wedd, yn gyhoeddus am y tro cyntaf. Llwyddodd i ddod â'r gorau o'r offeryn arbennig hwn – a phawb yn cytuno bod yr holl wariant wedi talu ffordd. Cafwyd eitemau hefyd gan Gôr Meibion Tâf o dan arweiniad Rob Nicholls, gyda Lowri Evans yn cyfeilio.

**Cymdeithas Nos Fawrth.**

'Hyd yn Hyn' oedd testun Gillian Elisa Thomas ddechrau'r mis – cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni'r actores amryddawn. Ail achlysur y mis oedd ymweld â Thonyfelin, Caerffili yng nghwmni aelodau Salem, Tonteg. Mwynhawyd noson o eitemau amrywiol, diddorol gan aelodau'r tair cymdeithas. Yna bu Calan McGreevy, Euros Rhys a Marc Jon Williams yn ein diddori drwy sôn am eu hoff recordiau – yr amrywiaeth yn eu dewisiadau, fel byddai rhywun yn disgwyl, yn drawiadol dros ben. Yr ola i ymweld â'r Gymdeithas fis Tachwedd oedd Stuart Cole, Athro Trafnidiaeth ym Mhrifysgol Morgannwg. Doedd hi ddim yn syndod, o ystyried ei gefndir, taw 'I'r Gorllewin o Paddington' oedd ei destun. Noson arall wahanol ond yr un mor llwyddiannus.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Roedd hi'n fis prysur i'r Chwiorydd. Dechreuodd y mis gyda Chwrdd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Yna daeth Blake Hemmings i siarad ar y testun 'Mae'r Nefoedd yn Datgan' – nid y gerddoriaeth ond yn hytrach ei ddiddordeb mewn seryddiaeth. Ymddengys fod ei delesgôp anferth wedi creu cryn argraff ar y cwmni. Taith o gwmpas yr Amgueddfa Genedlaethol o dan arweiniad Ann Saer oedd nesaf a'i hesboniadau o weithiau'r Meistri yn wych. Cyfarfod ola'r mis oedd atgofion gan Glenys a Ron Lindsay ynghyd â Bryn Evans o'u hymweliad â Lesotho.

**Dathliadau 2013.**

Bu'r diaconiaid yn ystyried pa fodd i ddathlu dauganmlwyddiant yr eglwys, a bydd grŵp bychan yn cychwyn gwyntyllu'r posibiliadau'n fuan. Cytunodd Huw Thomas, Robert Nicholls, Rici Carter a'r gweinidog ddechrau ar y gwaith, gan obeithio y bydd yr eglwys gyfan yn perchnogi'r prosiect erbyn y dathlu ei hun.

## Minny

**www.minnystreet.org**

Yn rhan o'n gwasanaeth ddechrau'r mis, cyflwynodd y Gweinidog wefan newydd Minny Street i sylw'r gynulleidfa. Roedd wedi paratoi cyflwyniad effeithiol iawn i'r plant i lansio'r cyfrwng digidol newydd. Chwaraeodd un o ganeuon enwocaf y Beatles *'All you need is love'* yn gyntaf ar chwaraewr recordiau ac yna drwy gyfrwng technoleg gryno ddiweddaraf yr iPod. Byrdwn yr anerchiad oedd mai'r un oedd y gân ond bod y cyfrwng yn newydd. Yn yr un modd mae gwefan yn gyfrwng cyfoes i gyflwyno a hyrwyddo neges oesol yr Efengyl a gwaith yr Eglwys. Mae'r wefan yn denu ymwelwyr cyson, diolch i'r deunydd diddorol sydd arni. Trowch ati am fanylion llawn gweithgarwch yr eglwys yn y dyddiadur wythnosol a misol; porwch yn y crynodeb o bregethau'r Sul a mynnwch flas ar brysurdeb yr eglwys ac amrywiaeth ei gweithgarwch o dan y pennawd Newyddion Cyfredol. Chewch chi mo'ch siomi.

Yn rhan o'n hymgyrch i godi arian ar gyfer *Yr Ystafell Fyw*, cafwyd cefnogaeth dda a llawer o bleser a hwyl yng nghwmni'n gilydd yn Swper yr Elusen. Ynghyd â mwynhau'r lluniaeth bys a bawd fe'n swynwyd gan y pedwarawd, Enlli a Lleucu Parri, Mared Browning a Sioned Press a chwaraeodd o dan arweinaid Judith James. Cawsom hefyd unawd hyfryd ar y piano gan Mared. Canodd Megan Lloyd Jones ddwy gân i ni ynghyd â deuawd hyfryd gyda'i hefaill, Tomos. Cyfansoddodd Cai Wilshaw gerdd a Tomos Lloyd Jones stori o dan y pennawd *Yr Ystafell Fyw* a chawsom ein gwefreiddio gan eu gwaith. Erbyn diwedd y noson casglwyd £350 tuag at ein nod.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes iawn a phob dymuniad da i **Ianto Gruffudd Hughes**, mab i Elen ac Owen (Grangetown), brawd i Leisa ac ŵyr i Shan a Peter Gillard.

**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i fedydd yr efeilliaid **Betsan Siôn** a **Gruffudd Siôn**, plant Beca a Richard Newis (Yr Eglwys Newydd), brawd a chwaer Iolo a Mali ac

wyrion i Tegwen a John Albert Evans, fore Sul, 21 Tachwedd. Dymunwn yn dda i'r teulu.

# Ebeneser, Heol Siarl

**Y Gymdeithas**
Cawsom noson hwyliog a diddorol yng nghwmni Geraint Lewis, sy'n aelod yn Eglwys Dewi Sant, pryd cawsom hanes cyfansoddwyr a'u campweithiau cerddorol. Pwy oedden nhw? Wel, Mendelssohn, Chopin a Schubert. Ond gan ei fod yn ei hadnabod yn dda, soniodd hefyd am Dilys Elwyn Edwards. Cafwyd blas o'u gweithiau yn unawdau a deuawdau gan Arwel ac Eleri Peleg Williams. Diolch i Geraint am ein goleuo am fywyd a gwaith cyfansoddwr mor wahanol ac am y datganiadau gan Arwel ac Eleri.

**Pen Rwdan**
Ar 11 Tachwedd daeth Mark Bennett o Abertawe atom a chawsom sgwrs am wasanaethu cymuned. Mae'n weinidog ar eglwys gymharol newydd yn Abertawe sydd â'i weledigaeth yn un eang a brwdfrydig. Un o'r projectau maent yn gyfrifol amdano yw rhannu bocsys bwyd i deuluoedd anghenus yn Abertawe. Ond mae cynllun tra gwahanol ar dro i'r cynlluniau traddodiadol arferol oherwydd mae'r eglwys yn y broses o godi arian i agor canolfan bowlio deg. Mae'n gynllun drudfawr ond ar hyn o bryd maent yn prysur gyrraedd y nod, sydd oddeutu £3 miliwn.Pob bendith a dymuniad da iddyn nhw yn y gwaith.

**Operation Christmas Child 2010**
Ers 1990 mae dros 81 miliwn o focsys wedi'u dosbarthu i blant mewn angen ar hyd a lled y byd. Cawsom y fraint o gefnogi'r achos teilwng hwn, sydd yn 20 oed eleni drwy gyfrannu 44 o focsys gan blant, ieuenctid a rhai o'r aelodau. Yn ein bywydau cyfforddus dylem gofio bob amser nad yw'r toriadau economaidd sy'n ein hwynebu yn ddim o'w gymharu â thlodi'r plant fydd yn derbyn yr anrhegion hyn. Mae'r bocsys yn mynd i wledydd tlawd yn Affrica, Dwyrain Ewrop ag Asia.

**Rhedeg y ras**
Rhedodd Sara **Ogwen** yr hanner marathon a **gynha**liwyd yng Nghaerdydd yn ddiwe**ddar** yn llwyddiannus. Er bod y marathon**,** **yn** ôl y sôn, yn fyrrach na'r disgwyl **bydd** y £140 godwyd ganddi yn mynd **at** ein helusen am eleni, Tŷ Hafan hosbis i blant. Diolch am ei hymdrech.

# Eglwys Dewi Sant

Braf yw cael cyhoeddi bod Rhun ap Robert wedi cael ei dderbyn i'w hyfforddi ar gyfer y Weinidogaeth Ordeiniedig. Bydd yn cychwyn ar yr hyfforddiant yng Ngholeg Mihangel Sant yn Llandaf fis Medi 2011. Mae Rhun wedi bod yn cymryd rhan yng ngwasanaethau'r eglwys ers tro a dymunwn pob bendith iddo.
Bedyddiwyd Dafydd Siôn, mab Nia a Rhisiart ar Dachwedd 21 gan ei dadcu, Canon Barry Thomas o Esgobaeth Tyddewi. Ar ôl y gwasanaeth croesawyd y teulu a'r gynulleidfa i neuadd yr eglwys ar gyfer lluniaeth i ddathlu'r achlysur hapus.
Llongyfarchiadau i Lowri Morgans, o'r Coed Duon yn wreiddiol, a Gareth Evans o Bontyberem ar eu priodas ddiwedd mis Hydref. Roedd y blodau yn yr eglwys a'r cyntedd yn brydferth ac wedi eu trefnu gan Ann Mears, un o'n haelodau a Carol Hancock o Dongwynlais.
Estynnwn ein cydymdeimlad â Dilys, Non a Dafydd Jones ar farwolaeth tad Dilys yn Llanllwni. Hefyd, cydymdeimlwn â Hugh a Gwenda Williams, Rhiwbeina ar ôl iddynt golli eu chwaer-yng-nghyfraith, Beryl Williams.
Bu plant yr Ysgol Sul yn brysur yn llenwi blychau esgidiau ag anrhegion i blant anghenus yn Romania.

**Bedydd Ioan Rhun yng Ngwlad Pwyl.**
Ddydd Sul y 24ain o Hydref, bedyddiwyd Ioan Rhun, mab Magdalena a Rhun ap Robert, yn eglwys Sant Ioan o Nepomucen yng Ngwlad Pwyl. Eglwys fechan yn Wilków (Filcwff), pentref genedigol Magda, yw Sant Ioan o Nepomucen sydd ger tref G³ogów (Gwogwff), yn ardal Silesia Isaf gorllewin Gwlad Pwyl. Gan ddilyn traddodiad, ymgorfforwyd y bedydd i'r gwasanaeth dydd Sul a'r offeren wedi'i chysegru i Ioan Rhun bach a'i rieni. Yn rhieni bedydd roedd Swyn Haf, nith Rhun a gynrychiolwyd gan ei mam Haf ap Robert a Bartosz Bek, brawd Magda. Yn ystod y seremoni bedyddio, derbyniodd Ioan ddilledyn gwyn fel symbol o burdeb gan ei fam fedydd a chynnwyd cannwyll fedydd iddo gan ei dad bedydd. Rhyfeddod i'r plwyfolion oedd cael gwrando ar ddarlleniadau o lythyr Sant Pawl gan Rhun a Magda - y naill yn y Gymraeg a'r llall yn y Bwyleg! Ar ôl y bedydd, rhoddwyd croeso cynnes iawn i'r holl westeion, yn lleol ac o Gymru, mewn bwyty lleol gan brofi bwydydd Pwylaidd traddodiadol.

# Eglwys y Crwys

**Y Gymdeithas**
Cafodd aelodau'r Gymdeithas daith Hydrefol hyfryd ar ddydd Sadwrn olaf y mis. Roedd y lleoliad a'r amseriad i weld gogoniant Dyffryn Gwy yn berffaith a chasgliad o liwiau'r tymor yn cael eu harllwys ar Abaty Tyndern a'r heddwch o'i gwmpas yn toddi i amgylchedd y dyffryn. Paned a sgwrs yn Y Mynach Gwyn a enwid mae'n debyg ar ôl y Myneich a sefydlodd yr Abaty, cyn mynd ymlaen i'r Gelli Gandryll. Yno cael ychydig o fwyd a rhagflas o'r Ŵyl Lyfrau flynyddol a gynhelir o gwmpas y dref ym Mis Mai, er bod yno siopau dirif yn gwerthu llyfrau drwy'r flwyddyn. Diwrnod i'w drysori yn y cof.

**Y Gymdeithas Ddrama**
Ar Nos Fercher Hydref 28ain cafodd yr aelodau gyfle i gael noson yn cymdeithasu yn nhŷ bwyta y Ffynnon Wen sydd ar y ffordd rhwng Caerffili a Rhiwbeina. Cafwyd hwyl ar fwynhau ychydig o luniaeth bys a bawd yn ogystal â rhannu atgofion am rai o gynyrchiadau'r gorffennol Roedd trefniadau'r noson yng ngofal Bob Roberts yn cael ei gynorthwyo gan y ddau gynhyrchydd Betsan Evans a Robin Owen. Mae'r gymdeithas eisoes wedi penderfynu ar ddwy ddrama fer ar gyfer y cynhyrchiad nesaf ym Mis Mai.

**Y Gorlan**
Mari Fflur oedd ein gwraig wadd ar brynhawn Dydd Mercher Hydref y 27ain. Mae Mari'n gweithio gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel Swyddog Cyhoeddusrwydd ac fe roddodd i ni amlinelliad o'i gwaith yn ystod ei hanerchiad, a roddodd gryn oleuni ar y sefyllfa o fewn y corff ac efallai yn ddarlun cytbwys o gyflwr yr eglwysi yn gyffredinol. Seiliwyd ei sgwrs ar waith ymchwil a wnaed gan gwmni o arbenigwyr ac fe wnaeth hithau ymateb i'r arolwg hwnnw trwy gyfrwng taflunydd a'i phrofiad personol. Prynhawn diddorol a daflodd oleuni pellach ar gyflwr yr eglwysi y dyddiau hyn.
Prynhawn Dydd Mercher Tachwedd 10fed cafwyd anerchiad arbennig o ddiddorol a gwahanol gan Wynne Thomas ar y testun "Torch o Ddur", thema hynod o anarferol ond addas iawn o gofio i Wynne gael ei fagu yn sŵn y gweithfeydd trymion o gwmpas ei gartref ym Mhen y Gelli Drain ger Gorseinon. Byrdwn ei anerchiad oedd y datblygiadau a fu yng ngwaith dur Glyn Ebwy ers ei sefydlu yno yn y flwyddyn 1937, gweledigaeth Neville Chamberlin y

Canghellor ar y pryd oedd hyn. Yno yr arloeswyd y dull o greu llen fetal y "strip mill" cyntaf yn Ewrop, cyn hynny gefail ag esgid oedd y prif arf. Yn dilyn hyn daeth i fod y gallu i orchuddio'r metal gyda wyneb o sinc a phaent. Roedd gan Wynne lu o engrheifftiau o'r metalau y cyfeiriodd atynt yn ystod ei sgwrs ac rydym yn ddyledus iddo am brynhawn difyr a gwahanol.

**Y Grŵp Merched**

Cyfarfu'r grŵp yma ar Nos Lun Tachwedd yr 8fed i wrando ar Diane Bartholemew yn olrhain peth o hanes y wisg Gymreig yng nghyd destun y ddawns. Pwysleisiodd Diane fod newidiadau wedi digwydd dros y blynddoedd ond yn ei hanfod mae tebyg oedd y patrymau, esblygiad y lliwiau, y defnydd a'r cymeriad ond peth amrywiaeth mewn chwaeth gan wahanol ardaloedd yn ei dewisiadau. Cafwyd amrywiad ar y sgwrs gan arddangosfa fechan o samplau o ddillad hŷn a hefyd y rhai a ddefnyddir i ddawnsio gan Gwmni Dawns Caerdydd. 'Dyw gwlanen Gymreig er enghraifft ddim yn addas i bob gwlad yn y byd ar bob achlysur,felly rhaid wrth amrywiaeth.

# Salem Treganna

**Bedyddiadau**

Cafwyd sawl bedydd yn Salem yn ystod y mis. Bedyddiwyd Nansi, merch Huw ac Awen ar yr 21ain, ac Anya Lili, merch Susan ac Andrew, ar y 7fed. Dymunwn yn dda iawn i'r ddau deulu.

**Ffair Cymorth Cristnogol**

Cynhaliwyd ffair Cymorth Cristnogol yn Salem am y tro cynta, fore Sadwrn yr 20fed. Roedd yn braf iawn cael croesawu pawb i Salem ac yn bleser cael helpu tuag at achos sy'n cyflwni gymaint. Roedd yn llwyddiant mawr, diolch i bawb a gyfrannodd.

**Gwibdaith y Bobl Ifanc**

Cawsom wibdaith yn ystod y mis wth fynd a chriw da i Lety Cynin ger Sain Cler dros nos. Cawsom gyfle i gymdeithasu a llawer iawn o hwyl. Diolch i bawb a ddaeth i fwynhau.

**Grŵp Canu**

Mae'r grŵp canu wedi bod yn ymarfer yn gyson ar gyfer perfformiadau mewn gwasanaethau dros gyfnod y Nadolig, rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at wledd o ganu.

**Paratoi at y Nadolig**

Mae croeso mawr i chi ymuno â ni ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig:

**19 Rhagfyr**—Gwasanaeth yr ysgol Sul am 10.30; Gwasanaeth y goleuni am 6

**Clwb Brecwast**

Mae criw da iawn wedi bod yn cyfarfod yn y clwb Brecwast i famau a gofalwyr o dan oed meithrin, sydd wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y mis.

**Noswyl Nadolig**

Gwasanaeth cymun am 11.30

**Bore Nadolig**

Gwasanaeth anffurfiol i ddathlu genedigaeth yr Iesu

**Cydymdeimlo**

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Dai a Gill a'r teulu, wrth i Dai golli ei fam yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch ar yr adeg drist yma.

# Ôl-lwybrau

Cynhaliwyd hanner marathon Caerdydd nôl yn yr Hydref a gwyliais raglen am y ras ar S4C. Wth wylio'r digwyddiad hedfannodd fy meddwl yn ôl dros y blynyddoedd pan fues i'n rhedeg yn y ras honno yn 1984 a minnau bron yn hanner cant oed erbyn hynny. Yn ôl fy nyddiadur cyflawnais y gamp mewn awr a thri chwarter a chofiaf y teimlad o falchder wrth groesi'r llinell derfyn a derbyn medal fel arwydd fy mod wedi cwblhau'r ras.

Dechreuodd fy ngyrfa redeg, neu loncian, yn 1982 pan o'n i'n 47 oed a hynny yng ngwersyll yr Urdd, Glanllyn pan o'n i'n swog yno. Un bore cyn brecwast cododd swog arall a minnau yn gynnar a rhedon ni o'r gwersyll i lawr at gofgolofn O.M. Edwards a Syr Ifan ap Owen Edwards. Roedd y daith i lawr i Lanuwchllyn yn gymharol hawdd ond o! bu'r ymdrech i redeg yn ôl i fyny at y gwersyll bron â'm lladd i! Er hynny, on i'n ddigon gwirion i ddal ati a rhedon ni bob bore cyn brecwast tan ddiwedd yr wythnos.

Ar ôl dychwelyd i Riwbeina, penderfynais barhau i redeg gan fod y chwiw rhedeg wedi cydio ynddo'i bellach. Es nôl i Lanllyn yn 1983 a dal i loncian, beicio a nofio yno. Gwyliais hanner marathon Caerdydd y flwyddyn honno gan addo i mi fy hun y byddwn yn rhedeg y ras y flwyddyn ganlynol. Flwyddyn yn ddiweddarach, teimlais gyffro mawr wrth sefyll ar Heol y Gogledd yng Nghaerdydd yn barod i redeg fy hanner marathon cyntaf. Dechreuodd y ras ac i ffwrdd â mi ynghanol y llu o redwyr eraill ond heb wybod a fyddai digon o nerth yn fy nghoesau i gyrraedd y diwedd. Rwy'n dal i gofio'r profiad o fod ar y 'Flyover' yn Gabalfa a gweld y cannoedd o'm blaen a'r cannoedd y tu ôl i mi! Daeth llawer o bobl i wylio'r ras ac yn sicr roedd eu cefnogaeth yn hwb i bawb a daliais ati i fynd gan gyrraedd y diwedd yn fuddugoliaethus.

Daliais ati i redeg hyd nes fy mod yn chwe deg wyth oed ond yna trawyd fi yn sydyn tra'n loncian gan ddiffyg anadl. Pan es at y meddyg, ei farn ef oedd fy mod yn dioddef o angina. Wel! Sôn am gwymp y cedyrn a minnau dan yr argraff fy mod cyn iached â chneuen! Ces lawdriniaeth a gosodwyd 'stent' yn un o'm gwythiennau clwc. Penderfynais roi'r ffidil yn y to a mynd ati i gerdded a nofio er mwyn cadw'n iach. Ond bob tro y gwelaf bobl yn loncian daw hiraeth drosof am y dyddiau difyr gynt ond rhaid i mi gyfrif fy mendithion a diolch bod y llawdriniaeth wedi adfer fy iechyd.

Gwilym E. Roberts.

**Pennaeth newydd i addysg yng Nghymru**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penodi Dr Emyr Roberts yn Bennaeth Addysg yng Nghymru i olynu'r Athro David Hawker. Llongyfarchiadau iddo a dymunir yn dda iddo yn ei swydd newydd.

Brodor o Fenllech, Ynys Môn yw Emyr ac ar ôl mynychu Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch graddiodd ym Mhrifysgol Reading a gwnaeth ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dechreuodd ei yrfa gyda'r NFU ac ar ôl hynny bu'n bennaeth Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol.

**Gradd Er Anrhydedd i'r Archdderwydd**

Mewn seremoni ddiwedd mis Hydref anrhydeddwyd T. James Jones yr Archdderwydd gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam pan gyflwynwyd gradd er anrhydedd iddo fel cydnabyddiaeth o'i ymrwymiad i'r Gymraeg a'i diwylliant.

Llongyfarchiadau iddo a phob dymuniad da iddo yn ei ddyletswyddau yn Eisteddfod Wrecsam a'r Fro yr haf nesaf.

menter caerdydd



# NADOLIG LLAWEN
# A BLWYDDYN NEWYDD DDA

## i holl ddarllenwyr Y Dinesydd gan bawb yn swyddfa Menter Caerdydd!

www.mentercaerdydd.org
029 2068 9888

**Penwythnos Teulu i Langrannog**
**Ebrill 15 – 17, 2011**

Sgio, Nofio, Merlota, Gwibartio, Motorbeics, Cwrs Rhaffau, Disco, Certiau Modur, s Sethyddiaeth, Trampolin, Pel-droed, Twmpath Dawns, Trip i'r traeth a llawer mwy…




Pris yn cynnwys llety en-suite, prydau bwyd, gweithgareddau, ac adloniant. Mae modd cofrestru, a thalu'r blaendal o £50 ar ein gwefan.

Oedolyn £115

Plant 8+ £92

Plant 4-7 £73

Plant 2-3 £45

Dan 2 £15

urdd.org

**DWYNWEN – O – GRAM SANTES DWYNWEN**

**Beth am drefnu 'DWYNWEN-O-GRAM' i rywun arbennig i ddathlu Santes Dwynwen ym mis Ionawr?!**

Enwebwch eich gwr, gwraig, cariad, ffrind i dderbyn 'DWYNWEN-O-GRAM' arbennig Menter Caerdydd!

Fe fydd un person lwcus yn derbyn tusw o flodau â photel o champagne i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen ar Ionawr 25, 2011.

I enwebu, ebostiwch *leanne@mentercaerdydd.org* gan nodi pwy sy'n haeddu'r 'DWYNWEN-O-GRAM' a pham!



**Parti Nadolig!**

**Bandiau gwych a cherddoriaeth byw i bobl ifanc 14+**

**Nos Sul, Rhagfyr 19**
**7.30pm**
**Clwb Ifor Bach**

## Ffônlyfr 2011

Mae'n fwriad gan y Fenter i gynhyrchu Ffônlyfr 2011 yn y flwyddyn newydd, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu enwau ar ei gyfer. Bwriad y Ffônlyfr yw cyhoeddi rhifau ffôn ac enwau cyswllt ar gyfer unigolion neu fusnesau sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas. Rydym yn chwilio am unigolion a chwmniau o bob maes gan gynnwys cyfreithwyr, adeiladwyr, cyfrifwyr, cwmniau dylunio, gofal plant, tiwtoriaid a llawer mwy. Os ydych chi'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n adnabod rhywun fyddai'n awyddus bod yn rhan o'r Ffônlyfr, cysylltwch â Leanne -
029 20 689888 neu leanne@mentercaerdydd.org

**DOSBARTHIADAU NOS I OEDOLION**

Fe fydd amserlen brysur o ddosbarthiadau nos i oedolion yn dechrau ym mis Ionawr – fe fydd mwy o wybodaeth a modd i gofrestru ar ein gwefan o fis Rhagfyr ymlaen.

Hanes
Eidaleg
Yoga
Gitar
Gosod blodau
Ysgrifennu Creadigol (Stori Fer)
Ffrangeg ar gyfer y gwyliau
Zumba
Canwio
Badminton
Cyfrifaduron

CARDIFF CAERDYDD

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Trefnir y dosbarthiadau i gyd mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd.
Cysylltwch ag Awel Davies am fwy o wybodaeth – aweldavies@mentercaerdydd.org

**Yr actor yn troi'n llenor**

Mae'r actor adnabyddus Mathew Rhys gynt o'r Eglwys Newydd ond sydd bellach yn byw yn Los Angeles newydd gyhoeddi llyfr dwyieithog o'r enw "Patagonia, Croesi'r Paith" sy'n adrodd ei hanes yn mynd ar geffyl gyda chriw o ddisgynyddion y gwlatgarwyr cyntaf ar daith o Ddyffryn Camwy i'r Andes. Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Gomer a'i bris yw £19.99.

**Dyrchafiad i ddau wleidydd o Gaerdydd**

Yn ddiweddar penodwyd tri gwleidydd o Gymru i Dŷ'r Arglwyddi yn Llundain yn y Flwyddyn Newydd sef Dafydd Wigley ac Eluned Morgan a Jenny Randerson o Gaerdydd.

Llongyfarchiadau i'r tri ar eu dyrchafiad.

**Tre Bute i gael hwb**

Bydd dros saith miliwn o bunnoedd ar gael i roi hwb i Dre Bute a ystyrir yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas, gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Caerdydd.

Adeiledir Canolfan Gymunedol newydd, Canolfan Ieuenctid newydd a chaiff llawer o adeiladau'r ardal eu huwchraddio gyda'r arian.


# EICH PRIODAS AR DVD

Gwasanaeth Ffilmio a Golygu Safonol
gan Gyfarwyddwr a Gŵr Camera Teledu Proffesiynol

Gwaith o ansawdd darlledu
Sampl DVD ar gael

Ymholiadau/Manylion pellach:
priodas@hotmail.co.uk
07747 750838

# Calendr y Dinesydd

**Llun, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Nadolig ac adloniant, yng nghapel Bethany am 7.00pm.
**Mawrth, 14 Rhagfyr**
Darlith Goffa J. E. Caerwyn a Gwen Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd): 'Rhai Addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy' gan yr Athro Patrick Sims-Williams (Aberystwyth), yn Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm.
**Mawrth, 14 Rhagfyr**
Merched y Wawr Caerdydd. Blasu bwyd a charolau, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.
**Mawrth, 14 Rhagfyr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson o gerddoriaeth Nadoligaidd yng nghwmni Rob Nicholls a'i ffrindiau, am 7.30pm.
**Mercher, 15 Rhagfyr – Gwener, 31 Rhagfyr**
Sherman Cymru a Theatr Iolo yn cyflwyno 'Plentyn yr Eira' (gan Sarah Argent, Dafydd James a Kevin Lewis), yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: 029-2063-6464.
**Mercher, 15 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a the parti'r Nadolig am 1.00pm yn festri Capel Minny Street. Gŵr gwadd: Parch. Denzil John.
**Sadwrn, 18 Rhagfyr**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr Christine James am gerdd Nadoligaidd am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.
**Sadwrn, 18 Rhagfyr**
Canu carolau o flaen Capel y Tabernacl, Yr Ais, am 11.00am.
**Sadwrn, 18 Rhagfyr**
Aelwyd Llundain yn perfformio 'Atgof o'r Sêr' gan Robat Arwyn yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Tocynnau £5 o flaen llaw neu wrth y drws.
**Gwener, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Carolau a chanhwyllau, dan ofal Rhys a Gwenda Morgan, yng nghapel Bethel am 11.00pm.
**Mercher, 5 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Atgofion am Affrica.' Sgwrs gan Eirlys Davies, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Carolau a chanhwyllau, dan ofal Rhys a Gwenda Morgan, yng nghapel Bethel am 11.00pm.
**Mercher, 5 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Atgofion am Affrica.' Sgwrs gan Eirlys Davies, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Mercher, 5 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. Dathlu'r Flwyddyn Newydd gyda Chwmni Dawns Werin Caerdydd, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.
**Llun, 10 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr: Alun Owens (Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd, Caerdydd). Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).
**Llun, 10 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen: Noson y Gangen, dan ofal Cath Thomas, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.
**Mawrth, 11 Ionawr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. 'Y Ddadl Falŵn', yng nghwmni Rhys ab Owen, Ioan Bellin, Mari Rogers a Sian E Thomas, am 7.30pm.
**Sadwrn, 15 Ionawr**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr E. Wyn James am y Bedyddiwr radicalaidd, Morgan John Rhys (1760–1804), a'i amser yn America, am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.
**Llun, 17 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Rhiannon Gregory, yng nghapel Bethany am 7.30pm.
**Llun, 17 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Dr R. T. Martin Edwards (Ysbyty Brenhinol Morgannwg) yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mawrth, 18 Ionawr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson yng nghwmni'r Prifardd a'r Prif Lenor Mererid Hopwood, am 7.30pm.
**Mercher, 19 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Iolo Walters, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Gwener, 21 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Hefin Wyn ar y testun 'Waldo – yr Enaid Gloyw', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.
**Sadwrn, 22 Ionawr**
Noson Cawl a Chân Dwynwen, yng nghwmni Bois y Waun Ddyfal, yn y Tabernacl, Yr Ais. Arweinydd y noson: Hywel Gwynfryn. Tocynnau: £10.
**Mawrth, 25 Ionawr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson Siôn a Siân: Dathlu Santes Dwynen gyda rhai o gyplau'r Tab, am 7.30pm.
**Iau, 27 Ionawr**
Cylch Cadwgan. Cefin Roberts yn siarad ar y testun 'Dylanwadau', yng Nghlwb Rygbi Pen-tyrch am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.
**Gwener, 28 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson Santes Dwynwen, yng Nghlwb Golff Drysgol Road, Radur. Cinio am 7.30pm. Gŵr gwadd: Sulwyn Thomas.
**Mawrth, 1 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Cwis a chyrri yng nghwmni Hywel Jones a Huw Roberts, am 7.30pm.
**Mercher, 2 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cyfarfod dan ofal y Parch. Menna Brown, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Gwener, 4 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. 'Y Cynulliad Cenedlaethol – Y Cam Nesaf?' Cyflwyniad a thrafodaeth dan arweiniad Betsan Powys. Yn Salem, Treganna, am 7.30pm.
**Llun, 7 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr: Geraint Hampson-Jones. Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).
**Llun, 7 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs ar Optometreg gan Sara Ward (Optegwyr Radur). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mawrth, 8 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson gerddorol yng nghwmni Aled Hall, am 7.30pm.
**Sadwrn, 12 Chwefror**
Cynhelir Degfed Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiadau Cymry America ddydd Sadwrn, 12 Chwefror 2011, rhwng 10.15am a 3.45pm. Thema'r gynhadledd: 'Cymry ar Daith ar Gyfandiroedd America'. Siaradwyr: Dylan Iorwerth, E. Wyn James, Bill Jones, Diana Luft, Catrin Stevens. Lleoliad: Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (029-2087-4843; ebost: cymraeg@caerdydd.ac.uk; gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/).
**Llun, 14 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Glantaf, yng nghapel Bethany am 7.30pm.
**Mawrth, 15 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson yng nghwmni'r Prifardd T. James Jones, Archdderwydd Cymru, am 7.30pm.
**Mercher, 16 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Mam a Mab.' Sgwrs gan y Parch. Ddr R. Alun Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Gwener, 18 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Derec Llwyd Morgan ar yr y testun 'Tyred i'n Gwaredu: Ymbiliad John Roberts Llanfwrog', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.
**Sadwrn, 19 Chwefror**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lynne Davies ar 'Y Gymraeg yng Ngwent' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

 ISSN 1362-7546

# ECO BWYLLGOR PWLL COCH



Mae angen Eco Bwyllgor i gadw pawb ar flaenau eu traed! Y plant a gafodd eu hethol oedd—Catrin Lord a Jake Donnelyy (6a) Molly Seymour– Self a Tomos Wilshaw (6b), Arwel Jenkins a Gwenllian Evans ( 5b) Jake Bevan a Chaniece Goulbourne(5a), Erin Colgan ( 4a), Sion Blythe (4b), Ellie Ashman (3a) ac Gwion Leader (3b).

### CYNGOR YSGOL PWLL COCH

Bu'r plant yn brysur yn ysgrifennu eu maniffestos ac yn ethol eu cynrychiolwyr ar gyfer y Cyngor Ysgol. Yr ymgeiswyr a gafodd eu hethol oedd: Elen Evans, Rhys Edwards (6a), Ben Cooksley, Owen Holloway (6b), Lucia Cleak, Tomi Owens(5a), Jordan Leachman, Megan Hamber(5b), Dewi Townley(4a), Osian Morgan(4b), Jaine Bevan(3a) a Gwen Jenkins (3b)

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn brysur hefyd gan ethol i'r Cyngor Cyfnod Sylfaen: Jada Jama a Billy Morgan (2a), Fflur Bowen a Sebastian Mc Carthy (2b), Megan Marlow a Tommy Goodman (1a), Dafydd Scourfield a c Eithne Collier (1b), Mali Martin a Guto Griffiths (Derbyn a), Megan Evans a Harry Burrows (Derbyn b).

Eu tasg fydd meddwl am syniadau am sut i wella'r ysgol a ffyrdd newydd o godi arian.



Eu tasg ddiweddaraf yw annog rhagor o bobl i gael cinio ysgol. Gyda dyfalbarhad a brwdfrydedd mae'r cyngor wedi bod yn ymchwilio i'r niferoedd sy'n bwyta cinio, beth maen nhw'n hoffi a sut gallwn eu gwella trwy greu holiadur, a chael cyfle i goginio a pharatoi yn y gegin.

Dyma nhw yn gwneud bisgedi ar gyfer disgyblion yr ysgol- bydd rhaid i Jamie Oliver fod yn ofalus- mae gan gogyddion Pwll Coch syniadau arbennig o dda!!!

Cogyddion penigamp!





### PWYLLGOR ECO CAERDYDD

Ar ddydd Gwener y 12fed o Dachwedd aeth Mrs James, Gwenllian Evans (bl.5) a Chaniece Goulbourne (bl.5) o'r Pwyllgor Eco i gyfarfod cyntaf Eco-Bwyllgor Ysgolion Caerdydd yn hen siambr y Cynulliad.

Roedd hi'n gyfle i'r ysgolion sydd wedi ennill baneri gwyrdd i ymgasglu a rhannu arfer da, syniadau am ddatblygu'r cynllun a ffurfio cysylltiadau. Daeth y tair o'r cyfarfod yn edrych mlaen at helpu Eco-Bwyllgor Pwll Coch i ddatblygu ymhellach waith yr Eco-Bwyllgor yn yr ysgol a'r ddinas.

### DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN

Dathlwyd y diwrnod arbennig hwn mewn steil ym Mhwll Coch wrth i'r plant a'r athrawon wisgo fel eu hoff archarwr.

Syniad y cyngor ysgol oedd hwn ac fe gasglwyd yr arian yn annibynnol. Cafwyd hwyl a sbri.

### YMADAWIAD CYFARWYDDWRAIG

Ar ôl deng mlynedd o fod yn Gyfarwyddwraig BBC Cymru mae Menna Richards gynt o Faesteg yn gadael ei swydd ym mis Chwefror 2011. Bu Menna yn Rheolwr Gyfarwyddwraig HTV Cymru cyn ymuno â'r BBC yn 2000. Derbyniodd yr OBE am ei hymroddiad i ddarlledu eleni. Dymunir yn dda iddi yn y dyfodol.